# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 13 Tachwedd 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Manteision Aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd

**C12 John Griffiths:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y manteision i Gymru o aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd? (OAQ13827)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae Cymru ar ei hennill yn sylweddol am fod y DU yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd, oherwydd ei bod yn rhoi manteision gwirioneddol a diriaethol i bobl Cymru. Mae'r UE wedi hybu hedd yn Ewrop, yn darparu swyddi a llwyddiant ariannol, yn gweithio drosom ar yr amgylchedd a'r gweithle. Mae proses ehangu'r UE yn yr arfaeth ac fe fydd yn rhoi cyfleoedd newydd i ni, er na fydd yn digwydd heb godi heriau hefyd.

### Effaith Rheoliad 2037/2000 yr UE ar Fusnesau Bach yng Nghymru

**C13 David Davies:** Pa drafodaethau gafodd Prif Weinidog Cymru gyda'i gydweithwyr sydd yn Aelodau o Senedd Ewrop ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch effaith rheoliad 2037/2000 yr Undeb Ewropeaidd ar fusnesau bach yng Nghymru? (OAQ13839)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf yn cwrdd yn rheolaidd â chydweithwyr sy'n Aelodau o Senedd Ewrop ac ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru i drafod ystod eang o bynciau.

*Tynnwyd cwestiwn 14 (OAQ13854) yn ôl.*

### Cydlynu Portffolios Datblygu Economaidd a Materion Gwledig

**C15 Peter Rogers:** Sut y mae Prif Weinidog Cymru'n cydlynu portffolios datblygu economaidd a materion gwledig er lles Gogledd Cymru? (OAQ13833) [R]

**Prif Weinidog Cymru:** Mae 'Cynllun i Gymru 2001' yn disgrifio ein haddewidion i ddatblygu'r economi a'n cymunedau yng Nghymru. Yn rhinwedd fy swydd fel cydlynydd polisi'r Gogledd, yr oeddwn yn falch ein bod yn gallu cyhoeddi grantiau cymorth rhanbarthol dewisol gwerth £3.3 miliwn i'r rhanbarth hwnnw, a fydd yn diogelu 72 o swyddi a chreu 219 o rai newydd. Mae Carwyn Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig, hefyd wedi cyhoeddi enwau'r grwpiau llwyddiannus a fydd yn bwrw ymlaen â mentrau fel y prosiectau LEADER, a fydd o gymorth i gefn gwlad y Gogledd, ymhlith rhanbarthau eraill.